CYNGOR CYMUNED PENNAL

**Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Cymuned Pennal a gynhaliwyd Nos Wener y 6ed o Fawrth 2026 am 7.30yh yn y Ganolfan Pennal.**

Presennol; Rhys Parry, James Brunton, Sion Evans, Ken Griffiths, Aled Rees, a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd y Cyng Rhys Parry.
   Roedd ymddiheuriadau gan Cyng Meirion Roberts a William Rees, a Cyng Dewi Owen (Cyngor Gwynedd)

2. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr agenda.

3. Cadarnhawyd gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 16eg o Ionawr 2026 ar gynnig Cyng Sion Evans a'i eilio gan Cyng James Brunton.

4. **Materion yn codi.**
   a) **Materion Priffyrdd –** darllenwyd ymatebion ers cyfarfod diwethaf.

      Cytunwyd ar gael bin halen newydd ar Rhiw Cefncynhafal ar bris o £362.67 ar gynnig Cyng Aled Rees a'i eilio gan Cyng Sion Evans.

      Darllenwyd cynnwys e-byst ynglyn a'r broblem o ddwr o flaen Ty Alys, a byddai'r Clerc yn dilyn hyn ymhellach.

   b) **Mynwent yr Eglwys** – dywedodd y Clerc nad oedd unrhyw ddatblygiad pellach.
   c) **Menter y Glan** – CCTV – adroddwyd fod y gwaith gan Dyfed Telecom wedi ei gwbwlhau. Roedd angen camera ychwanegol, a chytunwyd ar bris o £199 a TAW ar gynnig Cyng Aled Rees a'i eilio gan Cyng. Ken Griffiths.
   d) **Cynllun 'Gwynedd Ni'** – cronfa Cynghorau tref/Cymuned - nodwyd fod y Cadeirydd a'r Clerc wedi cyfarfod Liz Fenwick ar yr 20fed Ionawr, a bod cytundeb wedi ei wneud i barhau y gwaith artistig a gwybodaeth gan Partneriaeth Pennal am swm o £780. Roedd hyn wedyn wedi ei hawlio o dan y grant, ac roedd y rhan yma wedi ei orffen.

      Byddai modd parhau i hawlio gan fod cronfa newydd wedi ei hagor ar y 4ydd o Fawrth. Roedd angen syniadau erbyn y 15fed o Fehefin. Byddai'r Clerc yn dosbarthu y gohebiaeth.

   e) **Cyngor Tref Aberdyfi** – Cynllun Trafnidiaeth cymunedol gwirfoddol – nodwyd y diweddaraf.

f) **Gwelliant i'r arhosfan bws yn Cwrt** – nodwyd 3 pris i law, ac ar gynnig Cyng Aled Rees a'i eilio gan Cyng Ken Griffiths, dewiswyd y pris rhataf, sef un William Rees am swm o £1394.00 a TAW.

g) **Coeden ar y Marian** – Byddai'r Clerc yn dosbarthu gohebiaeth diweddaraf gan Rhydian Roberts yn cadarnhau y sefyllfa. Roedd tri pris gan gontractor i law, a dewiswyd un Carwyn Lloyd am £400, oedd yn cynnwys y chipio. Roedd angen ceisio gwneud hyn mor fuan a phosib, ac roedd rhaid i Rhydian Roberts o'r Parc Cenedlaethol gael gwybod dyddiad y gwaith.

h) **Yswirio Cylch y Marian** – roedd y Clerc wedi cysylltu gyda Liz Fenwick, ac roedd wedi son am oddeutu £2000 o ran y dylunio etc. Penderfynwyd yswirio y cylch am swm o £5000.( o gymryd fod y premiwm ychwanegol yn llai na £100)

i) **Cynllun y fynwent newydd yn Pennal** – gwelwyd y byddai rhaid trafod yn y cyfarfod nesaf.

5**. Materion Cynllunio**

Nid oedd unrhyw faterion i law.

6.**Materion Cyllid.**

a) **Nodwyd balansau y cyfrifon**, (6.03.26), sef Cyfri Cyfredol £17631.78 a Cyfri Cadw £ 2712.63

- Adroddwyd fod papurau yr Archwiliad Allanol am y flwyddyn 2024-25 bellach wedi eu dychwelyd. Aethpwyd drwy'r adroddiad a'r mân faterion arno. Cadarnhawyd fod hysbyseb wedi ei roi ar y wefan ac ar yr hysbysfwrdd yn Pennal.

- Cadarnhawyd benodiad Uned Archwilio Cyngor Gwynedd fel Archwilydd mewnol ar gyfer cyfrifon 2025-26.

- Cadarnhawyd nad oedd neb yn dymuno hawlio treuliau am y flwyddyn 2025-26, a chafodd datganiadau eu harwyddo gan bawb oedd yn bresennol.

b) **Anfonebau i law**.

Ar gynnig Cyng James Brunton a'i eilio gan Cyng Sion Evans, cytunwyd i dalu y canlynol;

- Cyngor Gwynedd – torri gwair y Marian am 2025 - £899.64

- Cydnabyddiaeth chwarter olaf y Clerc £537.48 a HMRC £134.40. Hefyd costau y Clerc am y flwyddyn, sef £500.

- Anfoneb EW Owen a'i Chwmni – PAYE - £252.00

- William Rees – agor bedd i'r diweddar Stephen Thomas Richards - £1320

  (cadarnhawyd fod £2189.40 wedi dod mewn i'r cyfri gan Aftercare funeral services – yn unol a graddfeydd Cyngor Gwynedd )

c) **Ceisiadau am arian oedd i law**

- Ar gynnig Cyng Aled Rees a'i eilio gan Cyng Ken Griffiths, cytunwyd ar gyfraniad o £1010 i Ysgol Pennal (sef y pryniant o ddau chromebook a offer cerddorol).

- Ar gynnig Cyng Aled Rees a'i eilio gan Cyng James Brunton, cytunwyd ar gyfraniad o £200 i Clybiau Ffermwyr Ieuainc Meirion.

**7. . Gohebiaeth**

a) Nodwyd sesiynau hyfforddiant Un Llais Cymru a oedd i law

b) Amddiffyn Gwasanaethau Bronglais – nodwyd y diweddaraf oedd i law.

c) Cynllun Datblygu Lleol Eryri – galw am safleoedd posib – nodwyd y gohebiaeth, a byddai'r Clerc yn rhoi poster ar yr hysbysfwrdd.

8.**Unrhyw fater arall.**

- Gofynnwyd beth oedd sefyllfa arwyddion baw cwn ar y Marian, ac addawodd Cyng Rhys Parry edrych i mewn i hyn.
- Roedd cerbyd yn aml yn parcio ger Brynllinos, a loriau carthffosiaeth yn methu pasio. Roedd rhaid cyfeirio hyn at Gyngor Gwynedd.
- Roedd angen i'r Parc Cenedlaethol edrych i mewn i sefyllfa carafan oedd yn barhaol ger Ffynnon Bach (gyferbyn a'r Hen Reithordy) ac yn ymddangos bod unigolyn yn byw yno.
- Roedd adroddiadau fod y ffordd ger Rhys Terrace yn cau dechrau Ebrill, a byddai'r Clerc yn danfon y manylion ymlaen.
- Roedd y batri ar y Di-fib oedd yn Cwrt ar fin darfod, a chadarnhawyd y penderfyniad i brynu Di -fib newydd yno.

**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF; CYFARFOD BLYNYDDOL; Nos Wener y 8fed o Fai 2026 yn y Ganolfan am 7.30yh.**